RS5-Elusennau Bach a Chronfeydd Wrth Gefn (Mehefin 2003)

Contents

	Page
Cyflwyniad	**1**
Crynodeb	**2**
Canfyddiadau	**3**
Materion rheoleiddiol	3
Pam mae elusennau yn cadw cronfeydd wrth gefn	3
Pennu lefel cronfeydd wrth gefn	4
Adolygu cronfeydd wrth gefn	5
Hyd a lled polisïau cronfeydd wrth gefn	6
Datblygu polisi	7
Esbonio cronfeydd wrth gefn	8
Polisi dadlennu	9
Atodiad A - Technegau Ymchwil	**10**
Atodiad B - Rhestr Termau	**19**
Atodiad C - Cyngor a gwybodaeth	**21**

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y ffordd y mae elusennau bach yn delio â rheoli cronfeydd wrth gefn.[1]

I ymddiriedolwyr, mae ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn y mae angen i'w helusen ei chadw yn rhan bwysig o'r gwaith cynllunio a rheolaeth ariannol gadarn. Mae hefyd yn fater allweddol i'r Comisiwn Elusennau fel y rheolydd. Os yw lefel y cronfeydd wrth gefn yn rhy uchel, maent yn clymu arian a allai ac y dylai gael ei wario ar weithgareddau elusennol. Os ydynt yn rhy isel, gall dyfodol yr elusen fod yn y fantol.

Mae polisi'r Comisiwn Elusennau ar weinyddu elusennau bach yn ceisio peidio â bod yn rhy argymhellol neu osod baich rheoleiddiol diangen. Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl neu'n mynnu bod elusennau bach yn cynhyrchu polisïau cronfeydd wrth gefn soffistigedig. Ond mae cronfeydd wrth gefn yn bwysig, ac yn haeddu ystyriaeth sy'n cyfateb i faint a natur yr elusen.

Mae canfyddiadau ein gwaith ymchwil a'n gwaith achosion yn dangos er y gall polisi cronfeydd wrth gefn ymddangos yn amherthnasol neu'n foethusrwydd i elusennau bach ar yr olwg gyntaf, gall ystyried polisi o'r fath (a all fod yn syml, yn fyr a heb fod yn gymhleth) helpu elusennau i ddefnyddio eu hasedau elusennol yn fwy effeithiol a'u helpu i gynllunio ar gyfer newid sydyn mewn incwm neu wariant.

Ni fydd gan nifer o elusennau bach unrhyw gronfeydd wrth gefn neu ddull o ddatblygu cronfa wrth gefn. Fodd bynnag, dylai elusennau bach sicrhau eu bod yn dryloyw yn eu gweithrediadau a'u bod yn cyflawni eu nodau mewn awyrgylch o arfer dda. Mae polisi cronfeydd wrth gefn yn cyfrannu'n bositif tuag at hyn.

[1] At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir elusen fach yn nhermau ei hincwm. Os oedd gan elusen incwm blynyddol o £10,000 neu lai yn ei blwyddyn ariannol lawn ddiwethaf, caiff ei hystyried yn elusen fach. Diffinnir y term 'cronfeydd wrth gefn' yn y rhestr termau ar dudalen 19.

Crynodeb

Mae cronfeydd incwm a allai gael eu gwario ond sydd, yn lle hynny, yn cael eu dal yn ôl, a elwir yn gronfeydd wrth gefn, yn chwarae rôl arwyddocaol o ran helpu elusennau fodloni eu hamcanion a chydbwyso anghenion buddiolwyr presennol a buddiolwyr y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o elusennau bach yn ceisio datblygu cronfa wrth gefn, ond mae symiau ac arferion penodol yn amrywio cryn dipyn. Er bod sawl elusen fach yn dweud nad oes unrhyw gronfeydd wrth gefn ganddynt, ac nid oeddent yn gallu eu datblygu, mae hanner yr elusennau bach a oedd heb bolisi cronfeydd wrth gefn yn cadw cronfeydd wrth gefn mewn gwirionedd.

Mae sawl rheswm da pam y gallai fod angen cronfa wrth gefn ar elusennau bach. Yn wir, mewn rhai achosion mae cronfeydd wrth gefn yn hanfodol er mwyn i'r elusen barhau. Ni ddylai ymddiriedolwyr ddal yn ôl, heb reswm da, gronfeydd y gellid eu gwario. Dangosodd y gwaith ymchwil mai dim ond 17% o elusennau bach oedd wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn ar adeg cynnal yr arolwg. Dylai ymddiriedolwyr elusennau bach ystyried llunio polisi i esbonio eu sefyllfa. Nid oes angen i'r polisi fod yn anodd neu'n gymhleth. Yn gyffredinol roedd yr elusennau bach hynny a oedd wedi paratoi polisi yn teimlo ei fod yn hawdd i'w greu ac yn ddefnyddiol i'w gael.

At ei gilydd, roedd profiadau elusennau bach o ran rheoli cronfeydd wrth gefn yn debyg iawn i brofiadau elusennau yn y grwpiau incwm uwch. Fe welwch ganfyddiadau ymchwil elusennau mwy yn ein cyhoeddiad **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**).

Argymhellion

Fel arfer dda dylai ymddiriedolwyr elusennau bach:

- ystyried y mater o gronfeydd wrth gefn a datblygu polisi sy'n cyfateb i anghenion eu helusen;
- edrych ar arweiniad y Comisiwn Elusennau **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) hyd yn oed os ydynt wedi derbyn cyngor gan gyfaill neu gydweithiwr ynghylch cronfeydd wrth gefn.

Yn ogystal bydd y Comisiwn Elusennau yn:

- pwysleisio dulliau cyfatebol o reoli cronfeydd wrth gefn ar gyfer elusennau bach mewn cyhoeddiad wedi'i ddiweddaru **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**);
- parhau i ddatblygu cyngor hawdd a hwylus i elusennau.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi trwy ddefnyddio tystiolaeth o gofnodion y Comisiwn Elusennau ac archwilio ein ffeiliau achosion. Siaradodd y Comisiwn â nifer o elusennau bach hefyd a chynhaliwyd arolwg.

Materion rheoleiddiol

Mae bron 100,000 o elusennau yng Nghymru a Lloegr wedi'u cynnwys yn y categori 'elusen fach'. Mae'r Comisiwn Elusennau yn mabwysiadu agwedd sy'n briodol i faint yr elusennau hyn a faint o asedau sydd ganddynt. Caiff ymddiriedolwyr lawer mwy o ryddid i gymryd penderfyniadau syml, ond pwysig, gan osgoi'r angen iddynt gyfiawnhau i ni sut y maent yn gweithredu bob amser. Mae Uned Elusennau Bach benodedig, a leolir yn Lerpwl, yn ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion sy'n effeithio ar elusennau bach a'u hymddiriedolwyr.[2]

Gall elusennau nad ydynt yn gwmnïau sydd ag incwm gros a chyfanswm gwariant o lai na £100,000 gynhyrchu cyfrifon derbyniadau a thaliadau neu gyfrifon croniadau.[3] Hefyd mae'n ofynnol iddynt baratoi adroddiad blynyddol cryno byr (Deddf Elusennau 1993 Adran 45 (1)).

Mae bob amser yn ofynnol i gwmnïau elusennol gynhyrchu cyfrifon sydd wedi'u paratoi ar sail croniadau, hyd yn oed os yw eu hincwm blynyddol a'u cyfanswm gwariant yn is na'r trothwy o £10,000.Mae angen i gwmnïau elusennol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr hefyd (Deddf Elusennau 1993 Adran 45 a Deddf Cwmnïau 1985 Adran 234).

Er nad oes unrhyw ofyniad statudol i elusennau bach ffeilio eu cyfrifon neu eu cofnodion yn flynyddol gyda'r Comisiwn Elusennau, mae'n ofynnol bod elusennau yn gallu eu cyflwyno i'w harchwilio, ar gais (Deddf Elusennau 1993 adran 41 ac adran 42).

Mae **Cadw Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau, Datganiad o Arferion Cymeradwy** (**SORP 2000**) yn gymwys i bob elusen yng Nghymru a Lloegr beth bynnag fo'u maint, eu cyfansoddiad neu eu cymhlethdod. Mae'n darparu'r sail ar gyfer paratoi cyfrifon croniadau, a mynnir eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac mae hefyd yn darparu argymhellion mewn achosion eraill (h.y. ar baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau).

Mae **SORP 2000** (Paragraff 31e) yn mynnu bod elusennau yn dadlennu polisi ar gadw cronfeydd wrth gefn (os oes un ganddynt) yn eu hadroddiad blynyddol. Felly mae'r gofyniad hwn yn gymwys i elusennau bach hefyd.

Er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol i elusennau gael polisi cronfeydd wrth gefn, mae awgrym clir y bydd angen polisi ar elusen er mwyn iddi allu cyfiawnhau dal unrhyw gronfeydd incwm wrth gefn. Mae gofyniad cyfreithiol i elusennau sydd â pholisi i ddadlennu'r polisi hwnnw yn eu hadroddiad blynyddol. Cewch fwy o fanylion a'r sefyllfa o ran Cwmnïau Elusennol yn **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**).

Pam mae elusennau yn cadw cronfeydd wrth gefn

Gan adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg ar gyfer elusennau mwy, roedd yr elusennau hynny a oedd yn cadw cronfeydd wrth gefn yn eu defnyddio i sicrhau parhad rhag ofn y byddai newid mawr yn eu hincwm (49%) neu i'w gwario mewn argyfwng (37%).

Roedd elusennau a oedd yn darparu cymorth ariannol fel eu prif weithgaredd yn fwy tebygol o ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn i gynhyrchu incwm i'r dyfodol (49%) nag yr oedd y rheiny a oedd yn darparu gwasanaeth fel eu prif weithgaredd (19%). Roedd elusennau sy'n darparu gwasanaeth yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn yn fwyaf aml 'i sicrhau parhad rhag ofn y byddai newid mawr yn eu hincwm'.

[2] Mae ein swyddfa yn Taunton yn darparu cyngor i elusennau bach yng Nghymru a'r rheiny sy'n cael eu gweithredu gan y Lluoedd Arfog.
[3] Mae hyn felly yn cynnwys elusennau bach.

I beth mae cronfeydd wrth gefn elusennau yn cael ei gadw



Pennu lefel cronfeydd wrth gefn

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fod yn hyderus bod y lefel gywir o gronfeydd wrth gefn ganddynt. Os oes gormod ganddynt wrth gefn, gall ymddiriedolwyr fod yn euog o weithredu'n groes i'w dyletswydd o ddefnyddio incwm o fewn amser rhesymol. Os nad oes digon wrth gefn ganddynt, gall ymddiriedolwyr roi eu sefydliad mewn perygl y mae modd ei osgoi.

Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn argymhellol ynghylch lefel y cronfeydd wrth gefn y dylai elusen ei chadw ac mae'n rhaid i bob elusen benderfynu faint y mae ei angen arnynt yn ôl eu hamgylchiadau arbennig ac ar ôl ystyried yn briodol y peryglon y mae eu sefydliad yn eu hwynebu.

Mewn arolwg a gomisiynwyd gan y Comisiwn Elusennau, gofynnwyd i elusennau ddisgrifio sut y penderfynon nhw ar y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer eu helusen. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- trwy ddadansoddiad llif arian parod;
- trwy drafod gyda'r rheolwr, y trysorydd neu aelod o'r pwyllgor cyllid; neu
- trwy edrych ar dueddiadau yn y gorffennol.

Dylai elusennau bach ymgymryd ag asesiad risg o'u gweithgareddau sy'n cyfateb i anghenion eu sefydliad. Ar lefel sylfaenol mae hyn yn rhoi cyfle i bennu gweithgareddau posib lle y gall rhwymedigaeth neu broblem godi. Gall hyn gynnwys edrych ar batrymau adnoddau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan trwy gyfres o gwestiynau, er enghraifft:

- Pa mor debygol yw hi y bydd ein prif ffynhonnell incwm yn newid?
- Sut byddem ni'n ymdopi pe byddai'n newid?
- Sut byddai hyn yn effeithio ar ein buddiolwyr?

Wrth ystyried lefelau gwirioneddol cronfeydd wrth gefn, roedd y canlyniadau ar gyfer elusennau bach yn galonogol iawn. Roedd gan y rhan helaethaf o elusennau bach (78%), waeth beth fo'u gweithgaredd sefydliadol, gronfeydd wrth gefn a oedd yn cyfateb â'u lefel arfaethedig. Mae hyn yn cymharu â 58% a oedd yn cadw eu lefel arfaethedig yn yr arolwg ar gyfer elusennau mwy **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (RS3).

Lefelau cronfeydd wrth gefn gwirioneddol ac arfaethedig ar gyfer elusennau bach

O'r elusennau hynny a nododd nad oedd lefel eu cronfeydd wrth gefn yn cyfateb â'r lefel arfaethedig ar hyn o bryd, roedd gan 15% o elusennau a oedd yn darparu cymorth ariannol fwy na'r lefel arfaethedig o gronfeydd wrth gefn, ond roedd gan 16% o'r elusennau a oedd yn darparu gwasanaethau neu gymorth lai na'r lefel arfaethedig o gronfeydd wrth gefn.

Er bod nifer o elusennau bach wedi dweud bod cronfeydd wrth gefn ganddynt, roedd y profiad o fethu â chael cronfa wrth gefn hanfodol hefyd yn gyffredin.

> *"Rydym yn cael trafferth i aros 'yn y du' heb sôn am ddatblygu cronfeydd wrth gefn."*
>
> Ymatebwr yr arolwg

Dylai elusennau bach sy'n methu â chreu cronfa wrth gefn hanfodol ystyried sut y byddent yn ymdopi pe byddent yn profi gostyngiad yn eu ffynhonnell incwm arferol. Dylai ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod strategaethau ganddynt ar gyfer ymdopi yn y sefyllfa hon trwy, er enghraifft, arallgyfeirio ffrydiau incwm a pheidio â dibynnu ar un ffynhonnell o gyllid yn unig.

Mae'n gwbl gyfreithlon i elusennau sydd heb lwyddo i adeiladu cronfeydd wrth gefn i'r lefel a ddymunir godi arian yn benodol ar gyfer y diben hwn, ar yr amod bod rhoddwyr yn ymwybodol o'r pwrpas y mae arian yn cael ei godi ar ei gyfer.

Dywedodd nifer o'r elusennau yn yr arolwg eu bod yn gwario'r arian yr oeddent yn derbyn yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid oeddent yn gwneud addewidion y tu hwnt i hynny ymlaen llaw.

> *"Does dim modd cael unrhyw gronfeydd wrth gefn, oherwydd mae rhieni yn disgwyl i'r arian y maen nhw wedi helpu ei godi gael ei wario ar eu plant nhw, ac nid ar blant rhywun arall ddwy flynedd yn ddiweddarach"*
>
> Ymatebwr yr arolwg

Yn yr amgylchiadau hyn mae'n gwbl briodol i beidio â chael unrhyw gronfeydd wrth gefn a byddai datganiad syml yn amlinellu'r rhesymau dros hyn yn ddisgrifiad digonol o'u sefyllfa.

Adolygu cronfeydd wrth gefn

Dangosodd yr ymchwil fod elusennau bach a oedd wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn bron yr un mor debygol o adolygu eu polisi yn rheolaidd ag elusennau mwy. Mae 58% o elusennau bach yn adolygu eu polisïau cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn o'i gymharu â 64% o elusennau mwy.

Hyd a lled polisïau cronfeydd wrth gefn mewn elusennau bach



Hyd a lled polisïau cronfeydd wrth gefn

Dim ond 17% o elusennau bach a arolygwyd oedd yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn.

Y math mwyaf cyffredin o weithgaredd yr oedd elusennau a oedd wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn yn ymgymryd ag ef oedd darparu cymorth ariannol (46%), ond i'r rheiny a oedd heb bolisi cronfeydd wrth gefn y math mwyaf cyffredin o weithgaredd oedd darparu gwasanaethau/cymorth (46%). Mae tabl 1, Atodiad A yn rhoi manylion am yr elusennau a ymatebodd yn ôl nodweddion allweddol.

Er bod 83% o elusennau wedi dweud nad oedd polisi ar gronfeydd wrth gefn ganddynt, dywedodd nifer ohonynt bod polisi 'answyddogol' neu 'weithredol' ganddynt.

"Mae polisi heb ei ysgrifennu gennym i beidio â gwario popeth, ac mae hyn yn ymddangos fel petai'n gweithio - [mae'n] bolisi cymhennu da."

Ymatebwr yr arolwg

"Mae'n ddealltwriaeth gyffredinol a dyw hi ddim wedi cael ei rhoi ar ffurf polisi ysgrifenedig."

Ymatebwr yr arolwg

Fel arfer dda dylai ymddiriedolwyr sy'n gweithio o fewn 'dealltwriaeth gyffredinol' neu 'bolisi cymhennu da' ar hyn o bryd geisio ffurfioli hyn mewn datganiad ysgrifenedig. Mae hyn yn sicrhau ei bod ar gael i ymddiriedolwyr newydd, rhoddwyr, buddiolwyr neu unrhyw fudd-ddeiliad eraill ei weld. Os oes polisi cronfeydd wrth gefn gan elusen, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ei gyhoeddi yn eu hadroddiad blynyddol.

At ei gilydd, teimlai elusennau a oedd wedi neilltuo amser i ystyried y mater a datblygu polisi, ei fod yn ddefnyddiol. Dywedodd 41% o elusennau oedd wedi paratoi polisi ei fod wedi helpu eu helusen a dim ond 4% a ddywedodd na fu'r polisi yn ddefnyddiol.

I ba raddau y mae paratoi polisi cronfeydd wrth gefn wedi helpu elusennau bach



Er y gall yr angen i ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn ymddangos yn ofyniad brawychus, teimlai'r mwyafrif o elusennau yn yr arolwg nad oedd hon yn dasg arbennig o anodd. Dim ond 3% o elusennau a oedd wedi paratoi polisi ddywedodd ei fod yn 'eithaf anodd neu'n anodd iawn' ei gynhyrchu.

Yn gyffredinol dylai fod modd i elusen fach sydd â phatrwm sefydlog syml o dderbyniadau a thaliadau, ychydig neu dim ymrwymiadau, ac nid yw'n debygol o gael ei heffeithio gan ddylanwadau allanol allu ymdrin â'r materion hyn yn weddol gyflym a rhoi cofnod byr o gasgliad yr ymddiriedolwyr.

Os oes gan elusennau bach bortffolio asedau mawr neu waddoliadau sylweddol, bydd angen bod yn fwy gofalus wrth ystyried cronfeydd wrth gefn. Cynghorir elusennau sydd â'r nodweddion hyn i edrych ar **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**), **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) a **Cronfeydd Wrth Gefn Incwm Elusennau** (**OG43**) er mwyn sicrhau bod y polisi sydd ganddynt a lefel yr ystyriaeth yn briodol i'w hasedau.

- Bydd y Comisiwn Elusennau yn pwysleisio dulliau rheoli cronfeydd wrth gefn cyfatebol ar gyfer elusennau bach mewn cyhoeddiad wedi'i ddiweddaru **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**).

Datblygu polisi

Dangosodd yr arolwg bod y 'corff ymddiriedolwyr cyfan' yn gyfrifol am greu'r polisi cronfeydd wrth gefn yn y rhan fwyaf o achosion (60%).

Cafodd cyhoeddiad y Comisiwn Elusennau **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) ei ddefnyddio yn gyffredin fel canllaw (19%) wrth osod lefelau cronfeydd wrth gefn a pharatoi polisi. Roedd cynghorydd proffesiynol hefyd yn brif ffynhonnell gwybodaeth, gyda 20% o elusennau bach yn troi atyn nhw am gyngor.

Roedd cyfeillion neu gydweithwyr yn chwarae rhan sylweddol (19%) sy'n cynrychioli nifer fwy nag a adroddwyd yn arolwg elusennau mwy (7%). Dywedodd y rheiny a oedd wedi ceisio cyngor gan gyfaill neu gydweithiwr fod creu'r polisi yn haws na'r rheiny a drodd at ganllawiau ffurfiol y Comisiwn Elusennau. Dywedodd 70% fod y broses naill ai'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd, o'i gymharu â 47% a oedd wedi defnyddio canllawiau'r Comisiwn.

Cafodd elusennau gyfle i ddweud sut y gallai'r broses o ddatblygu polisi cronfeydd wrth gefn gael ei gwneud yn haws iddynt. Er nad oedd llawer o ymatebwyr yr arolwg wedi dewis ateb y cwestiwn hwn, roedd y rheiny a atebodd yn gofyn am fwy o

gyfarwyddyd a chyngor penodol gan y Comisiwn Elusennau.

Nid oedd 85% o ymatebwyr a oedd heb baratoi polisi wedi ceisio cyngor o unrhyw le. Os oedd elusennau wedi ceisio cyngor, ond heb ddatblygu polisi, y prif reswm am hyn oedd diffyg cronfeydd i'w cadw wrth gefn.

Rhoddwyd amryw o resymau i egluro pam nad oedd elusennau wedi datblygu polisi.

Dywedodd 44% o elusennau a oedd heb bolisi nad oeddent wedi ystyried cael polisi. Dywedodd 44% pellach mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd unrhyw gronfeydd ganddynt i'w cadw wrth gefn, a dywedodd 35% mai'r rheswm oedd oherwydd nad yw'n ofynnol iddynt gael un.[4]

Dim ond 5% o elusennau dywedodd nad oedden nhw wedi creu polisi oherwydd nad oedd digon o amser ganddynt i'w baratoi a dim ond 3% a deimlai'n rhwystredig oherwydd ei bod yn rhy anodd.

- Fel arfer dda dylai ymddiriedolwyr elusennau bach ystyried y mater o gronfeydd wrth gefn a datblygu polisi sy'n cyfateb i anghenion eu helusen.
- Bydd y Comisiwn Elusennau yn parhau i ddatblygu cyngor hawdd a hwylus i elusennau.

Esbonio cronfeydd wrth gefn

Ni ddylai elusennau sydd wedi seilio lefel eu cronfeydd wrth gefn ar anghenion eu sefydliad gael unrhyw broblem o ran esbonio'r penderfyniad hwn i'w budd-ddeiliaid trwy eu polisi cronfeydd wrth gefn.

Mae **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn nodi nifer o elfennau y mae polisi cronfeydd wrth gefn da yn ymdrin â nhw, gan gynnwys pedwar maes allweddol:

- y rhesymau pam y mae angen cronfeydd wrth gefn ar elusen;
- pa lefel (neu amrediad) o gronfeydd wrth gefn y cred yr ymddiriedolwyr y mae ei hangen ar yr elusen;
- pa gamau y mae'r elusen yn bwriadu eu cymryd i sefydlu neu gynnal cronfeydd wrth gefn ar y lefel (neu'r amrediad) y cytunwyd arni; a
- threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r polisi.

Fel yn achos elusennau mwy, rhoddodd elusennau bach lai o fanylion ynghylch sut y bwriadant fonitro ac adolygu eu polisi a'r camau y byddai'r ymddiriedolwyr yn eu cymryd i sefydlu neu gynnal cronfeydd wrth gefn ar y lefel y cytunwyd arni na'r manylion a roddwyd ar gyfer y ddwy agwedd arall (y rhesymau pam y mae angen cronfeydd wrth gefn ar elusennau a'r lefel neu'r amrediad y cred yr ymddiriedolwyr y mae ei hangen arnynt).

Yn galonogol, roedd elusennau a oedd wedi defnyddio **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) yn llawer mwy tebygol o gael datganiad ysgrifenedig sy'n ymdrin â phob un o'r pedair agwedd. Roedd 71% o ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi darllen yr arweiniad wedi nodi yn eu datganiad ysgrifenedig y lefel neu'r amrediad y cred yr ymddiriedolwyr elusen y mae ei hangen ar yr elusen. Mae hyn yn cymharu â dim ond 12% o elusennau a geisiodd gyngor gan gyfaill neu gydweithiwr.

Roedd 41% o elusennau a ddefnyddiodd **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) wedi cynnwys datganiad yn eu cronfeydd wrth gefn yn esbonio pam yr oedd angen cronfeydd wrth gefn ar yr elusen neu beidio, ond nid oedd unrhyw un o'r rheiny a drodd at gyfaill neu gydweithiwr am gyngor wedi ymdrin â'r mater hwn yn eu polisïau ysgrifenedig.

[4] Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Canfyddiadau

Roedd y canlyniadau'n dangos er bod dulliau anffurfiol o gael gwybodaeth yn ddefnyddiol ac yn golygu bod creu polisïau'n haws, mae angen i ymddiriedolwyr elusennau bach sicrhau bod y cyngor a dderbyniant yn cynnwys yr holl gyngor arfer orau. Dylai ymddiriedolwyr edrych ar arweiniad ffurfiol y Comisiwn Elusennau hefyd.

- Fel arfer dda dylai ymddiriedolwyr elusennau bach edrych ar arweiniad y Comisiwn Elusennau **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**CC19**) hyd yn oed os ydynt wedi derbyn cyngor am gronfeydd wrth gefn eu helusen gan gyfaill neu gydweithiwr.

Polisi dadlennu

Nid yw 52% o elusennau bach yn cyhoeddi eu polisi cronfeydd wrth gefn. O'r rheiny sy'n gwneud hynny, mae bron un rhan o dair ohonynt (32%) yn ei gyhoeddi yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr.

Gofynnwyd i elusennau bach nodi nifer ac amrediad y partïon a oedd wedi mynegi diddordeb yn eu polisi cronfeydd wrth gefn. Dywedodd 42% bod eu hymddiriedolwyr wedi mynegi diddordeb yn y polisi a dywedodd nifer llai o elusennau bod eu harchwiliwr, corff rhoi grantiau, gweithwyr neu aelodau wedi mynegi diddordeb. Fodd bynnag, nid oedd nifer o elusennau (42%) a oedd wedi paratoi polisi erioed wedi cael eu holi amdano gan unrhyw un. Roedd y profiad hwn yn llawer mwy cyffredin i elusennau llai nag yr oedd yn arolwg elusennau mwy, lle y nododd 16% yn unig o elusennau nad oedd unrhyw un wedi mynegi diddordeb yn eu polisi cyn yr arolwg.

Er bod nifer o elusennau bach heb gael eu holi am eu polisi cronfeydd wrth gefn yn y gorffennol, mae'n debyg y bydd diddordeb yn y maes hwn o reoli elusennau yn cynyddu.

Mae polisïau cronfeydd wrth gefn yn arf defnyddiol i elusennau bach, maent yn gwneud cyfraniad positif at reolaeth dda ac yn hwyluso tryloywder.

Mae polisïau cronfeydd wrth gefn yn aml yn syml ac yn ddiffwdan i'w datblygu ac yn gyffredinol mae ymddiriedolwyr elusennau bach yn elwa o roi ystyriaeth briodol i gronfeydd wrth gefn.

Ble mae'r polisi cronfeydd wrth gefn yn cael ei gyhoeddi



Sylwch: roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Atodiad A - Technegau Ymchwil

Roedd rhan un y gwaith ymchwil ar gronfeydd wrth gefn yn cynnwys edrych ar brofiad elusennau sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000. Cyflwynir y canfyddiadau o'r gwaith ymchwil hwn yn **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**).

I gael copi o **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**) gallwch naill ai:

- edrych arno ac argraffu copi o adran gyhoeddiadau ein gwefan neu
- ffonio staff ein Canolfan Gyswllt i gael copi printiedig ar 0870 333 0123 (rhwng 8.30 am a 6.00 pm yn ystod yr wythnos) neu (ar adegau eraill) ffoniwch ein llinell archebu peiriant ateb ar 01823 345427.

Mae **Elusennau Bach a Chronfeydd Wrth Gefn** (**RS5**) yn adlewyrchu profiad elusennau sydd ag incwm blynyddol o lai na £10,000 ac mae wedi cael ei baratoi trwy ran dau y gwaith ymchwil.

Roedd rhan dau y gwaith ymchwil yn cynnwys edrych ar waith achosion elusennau bach y Comisiwn Elusennau a chynnal trafodaethau ag elusennau unigol. Cynhaliwyd arolwg trwy'r post gan gwmni ymchwil annibynnol gyda 1200 o elusennau bach ar ran y Comisiwn Elusennau.

Cafwyd cyfradd ymateb o 44% i'r arolwg elusennau bach. Mae hon yn gyfradd uchel i arolwg o'r fath.

Darparwyd ymatebion gan 90 elusen a oedd wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn a 443 gan elusennau a oedd heb baratoi polisi. Yn unol â hyn, mae is-rannu a dadansoddi ymhellach y rheiny sydd â pholisi yn golygu maint sylfaen bach iawn. Nodir yr amgylchiadau yn y tablau.

Tabl 1: Proffil o ymatebwyr

		Wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn %	Heb baratoi cronfeydd wrth gefn %
Wedi paratoi polisi?	Wedi paratoi polisi cronfeydd wrth gefn	17	-
	Heb baratoi polisi cronfeydd wrth gefn	-	83
Prif Weithgaredd	Darparu cymorth ariannol	46	37
	Darparu gwasanaethau/cymorth	41	46
	Gweithredu fel corff mantell/adnoddau	2	5
	Noddi neu wneud gwaith ymchwil	0	1
	Arall	4	4
	Ddim wedi ateb	7	9
Prif ffynhonnell incwm	Contract	2	2
	Rhoddwyr	10	17
	Grantiau	3	6
	Buddsoddiadau	42	26
	Aelodau	20	22
	Is-gwmni masnachu	0	1
	Arall	16	17
	Ddim wedi ateb	7	10
Sylfaen		**90**	**443**

Tabl 2: Barn gyffredinol ynglŷn â chael polisi cronfeydd wrth gefn

Ydy cael polisi wedi helpu'r elusen?

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Ydy	41	37
Nac ydy	4	4
Heb helpu neu rwystro	41	37
Ddim wedi ateb	14	12
Sylfaen	**90**	

Tabl 3: Ffynonellau cyngor/gwybodaeth a ddefnyddir gan elusennau bach i osod lefel cronfeydd wrth gefn a datblygu polisi

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Cynghorydd proffesiynol	20	18
CC19 - Canllaw y Comisiwn Elusennau	19	17
Cyfaill neu Gydweithiwr	19	17
Cyngor gan Archwilwyr	17	15
SORP 2000	7	6
Cyfnodolion y sector	2	2
Enghreifftiau SORP - CC66	2	2
Arweiniad gweithredol o Wefan y Comisiwn Elusennau	1	1
Eraill	28	25
Heb ddefnyddio unrhyw un o'r uchod	22	20
Ddim wedi ateb	3	3
Sylfaen	**90**	

* Sylwch roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gal cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 4: Creu polisi yn hawdd neu'n anodd-trwy ffynonellau cyngor/gwybodaeth a ddefnyddiwyd

Cyngor/gwybodaeth a ddefnyddiwyd	Creu polisi yn hawdd neu'n anodd						
	Hawdd iawn %	Eithaf hawdd %	Ddim yn hawdd neu'n anodd %	Eithaf anodd %	Anodd iawn %	Ddim wedi ateb %	**Sylfaen**
Cynghorydd proffesiynol	17	33	33	0	6	11	**18**
Cyngor gan archwilwyr	33	27	27	0	0	13	**15**
CC19 - Canllaw y CE	29	18	47	6	0	0	**17**
Cyfaill neu gydweithiwr	29	41	29	0	0	0	**17**
Arweiniad Gweithredol o Wefan y CE	0	0	100	0	0	0	**1***
Cyfnodolion y sector	0	0	100	0	0	0	**2***
Enghreifftiau SORP - CC66	0	50	50	0	0	0	**2***
SORP 2000	33	33	33	0	0	0	**2***
Eraill	48	20	28	4	0	0	**25**
Heb ddefnyddio unrhyw un o'r uchod	35	25	40	0	0	0	**20**

* Sylfaen fach iawn

Tabl 5: Pwy oedd prif ddyfeisydd y polisi?

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Corff ymddiriedolwyr cyfan	60	54
Aelod penoldol o'r corff ymddiriedolwyr	19	17
Aelod o'r staff	7	6
Archilwydd	3	3
Cynghorydd proffesiynol	2	2
Arall	4	4
Ddim wedi ateb	4	4
Sylfaen	**90**	

Tabl 6: Meysydd a ymdrinnir yn y datganiad ysgrifenedig - yn ôl ffynonellau cyngor/gwybodaeth a ddefnyddiwyd*

Ffynonellau cyngor/ gwybodaeth a ddefnyddiwyd	Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y datganiad ysgrifenedig						
	Y lefel neu'r amrediad y cred yr ymddiriedolwr y mae ei hangen ar yr elusen	Rhesymau pam mae angen/nad oes angen cronfeydd wrth gefn ar eich elusen	Y camau y bydd yr elusen yn eu cymryd i sefydlu/ cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel/amrediad y cytunwyd arni	Trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r polisi	Does dim polisi ysgrifenedig gennym	Ddim wedi ateb	
	%	%	%	%	%	%	Sylfaen
Cynghorydd proffesiynol	22	11	11	11	61	17	**18**
Cyngor gan Archwilwyr	40	20	33	7	47	13	**15**
CC19 - Canllaw y CE	71	41	24	24	29	0	**17**
Cyfaill neu gydweithiwr	12	0	0	0	77	12	**17**
Arweiniad Gweithredol o Wefan y Comisiwn Elusennau	0	0	0	0	100	0	**1****
Cyfnodolion y sector	100	100	50	50	0	0	**2****
Enghreifftiau SORP - CC66	50	50	50	0	50	0	**2****
SORP 2000	83	83	67	33	17	0	**6****
Eraill	24	24	0	8	48	12	**25**
Heb ddefnyddio unrhyw un o'r uchod	15	0	0	0	75	15	**20**

* Sylwch roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%
** Sylwch sylfaen fach iawn

Tabl 7: Partïon sydd wedi mynegi diddordeb mewn polisïau cronfeydd wrth gefn elusennau*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Ymddiriedolwyr	42	38
Neb wedi mynegi diddordeb	42	38
Archwilwyr	12	11
Comisiwn Elusennau	10	9
Cyrff rhoi grantiau	9	8
Cynghorwyr ariannol	4	4
Rhoddwyr	2	2
Gweithwyr	2	2
Codwyr arian	2	2
Aelodau	1	1
Eraill	2	2
Ddim wedi ateb	6	5
Sylfaen	**90**	

* Sylwch roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 8: Rhesymau dros beidio â chael polisi cronfeydd wrth gefn

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Heb ystyried cael un	44	193
Dim cronfeydd i'w cadw wrth gefn	44	193
Ddim yn ofynnol i gael polisi	35	157
Ddim yn gwybod sut i greu'r polisi	9	39
Dim amswer i ystyried y mater o gronfeydd wrth gefn	5	22
Rhy anodd	3	11
Ddim eisiau dadlennu'r wybodaeth hon i eraill	2	8
Eraill	11	50
Ddim wedi ateb	2	9
Sylfaen	**443**	

Tabl 9: Oes gan eich elusen unrhyw arian y gellid ei ddisgrifio fel cronfeydd wrth gefn? (ymatebwyr heb bolisi cronfeydd wrth gefn)

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Oes	51	225
Nac oes	45	197
Ddim yn gwybod	3	11
Ddim wedi ateb	2	10
Sylfaen	**443**	

Tabl 10: Sut oeddech chi wedi penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn i'w chadw? (ymatebwyr sydd wedi paratoi polisi)

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Trwy drafod â rheolwyr/trysorydd/pwyllgor cyllid ac ati	14	13
Dadansoddiad llif arian	14	13
Wedi edrych ar dueddiadau'r gorffennol	12	11
Cadw lefelau presennol buddsoddiadau/incwm buddsoddiadau	9	8
Arian ar gael/cronfeydd dros ben/incwm cronedig/cymynroddion	8	7
Hyd at a chan gynnwys costau cynnal/gwariant dwy flynedd	8	7
Lleiafswm y mae ei angen i gynnal pwrpas yr elusen	7	6
Cronfeydd wrth gefn yn gyfalaf gweithredol	4	4
Gwariant wedi'i gynllunio/ei gyllidebu	4	4
Aros gyda swm penodedig o gronfeydd wrth gefn	4	4
Wedi dilyn canllawiau/portffolio cymeradwy gan gyrff proffesiynol	3	3
Barn/profiad personol	2	2
Yn ddigonol i gynhyrchu incwm	2	2
Sylfaen	**90**	

Tabl 11: Lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan elusennau sydd wedi paratoi polisi

Ydy'r swm cyfredol rydych yn ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn ....?

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Yn llai na'r lefel arfaethedig	10	9
Yn cyfateb â'r lefel arfaethedig	78	70
Mwy na'r lefel arfaethedig	8	7
Ddim wedi ateb	4	4
Sylfaen	**90**	

Tabl 12: Swm cyfredol mewn cronfeydd wrth gefn - yn ôl prif weithgaredd y sefydliad (ymatebwyr sydd wedi paratoi polisi)

Swm mewn cronfeydd wrth gefn	Prif weithgaredd y sefydliad				
	Cymorth ariannol %	Gwasanaeth/ cymorth %	Corff mantell %	Ymchwil %	Arall %
Llai na'r lefel arfaethedig	5	16	0	0	25
Yn cyfateb â'r lefel arfaethedig	78	78	100	0	50
Mwy na'r lefel arfaethedig	15	3	0	0	0
Ddim wedie ateb	2	3	0	0	25
Sylfaen	**41**	**37**	**2***	**0**	**4***

* Sylwch sylfaen fach iawn
* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 13: Camau a gymerwyd i ddatrys y sefyllfa os oedd cronfeydd wrth gefn yn uwch neu'n is na'r lefel arfaethedig (ymatebwyr sydd wedi paratoi polisi)

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Parhau i godi arian/cynyddu codi arian	19	3
Apelio at gynulleidfa/elusennau eraill/sefydliadau am arian	13	2
Arian yn gostwng/yn cael ei leihau	13	2
Monitro/lleihau gwariant	6	1
Ailfuddsoddi llog/difidendau	6	1
Projectau cyfalaf arfaethedig	6	1
Cronfeydd wrth gefn yn cael eu hystyried yn ffigur lleiaf, yn hapus/ derbyniol os ydynt yn uwch	6	1
Ddim wedi ateb	38	6
Sylfaen	**16**	

Tabl 14: I beth mae cronfeydd wrth gefn elusennau (ymatebwyr sydd wedi paratoi polisi)*

	Cyfanswm	
	%	Nifer
Sicrhau parhad os bydd incwm yn amrywio'n fawr	49	44
I'w gwario mewn argyfwng	37	33
I gynhyrchu incwm	32	29
I dalu am brosiectau penodol yn y dyfodol	29	26
I bontio problemau llif arian	11	10
Ar gyfer rhwymedigaethau penodol, e.e. ymrwymiadau pensiwn/cytundebol	2	2
Eraill	3	3
Ddim wedi ateb	3	3
Sylfaen	**90**	

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%

Tabl 15: I beth mae cronfeydd wrth gefn elusennau - yn ôl prif weithgaredd y sefydliad*

I beth mae cronfeydd wrth gefn	**Prif weithgaredd y sefydliad**				
	Cymorth ariannol %	Gwasanaeth/ cymorth %	Corff mantell %	Ymchwil %	Arall %
Sicrhau parhad os bydd incwm yn amrywio'n fawr	39	57	50	0	50
I'w gwario mewn argyfwng	22	46	50	0	75
I gynhyrchu incwm	49	19	50	0	0
I dalu am brosiectau penodol yn y dyfodol	24	27	50	0	100
I bontio problemau llif arian	7	16	0	0	0
Ar gyfer rhwymedigaethau penodol, e.e. ymrwymiadau pensiwn cytundebol	2	3	0	0	0
Eraill	5	3	0	0	0
Ddim wedi ateb	5	3	0	0	0
Sylfaen	**41**	**37**	**2****	**0**	**4****

* Roedd ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb felly gall cyfanswm y tabl fod yn fwy na 100%
** Sylwch sylfaen fach iawn

Atodiad B - Rhestr Termau

Cronfeydd wrth gefn. Mae gan y term 'cronfeydd wrth gefn' amrywiaeth o ystyron technegol a chyffredin, yn dibynnu ar y cyd-destun. Fel yn **SORP 2000**, defnyddiwn y term 'cronfeydd wrth gefn' yma (oni bai y nodir fel arall) i ddisgrifio'r rhan honno o gronfeydd incwm yr elusen sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer ei dibenion cyffredinol.

Felly, cronfeydd wrth gefn yw'r adnoddau sydd gan yr elusen neu sydd ar gael i'r elusen i'w gwario ar gyfer unrhyw un neu bob un o ddibenion yr elusen ar ôl iddi gwrdd â'i hymrwymiadau a darparu ar gyfer ei gwariant arfaethedig arall.

Yn fwy penodol mae **SORP 2000** yn diffinio cronfeydd wrth gefn fel incwm sydd ar gael i'r elusen ac sydd i'w wario yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr i hybu unrhyw un o amcanion yr elusen (y cyfeirir atynt weithiau fel incwm 'pwrpas cyffredinol') ond sydd heb gael ei wario, ei ymrwymo neu ei ddynodi eto (h.y. mae'n 'rhydd'). Felly nid yw'r diffiniad hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys:

- gwaddoliad parhaol;
- gwaddoliad treuliadwy;
- cronfeydd cyfyngedig;
- cronfeydd dynodedig; a
- chronfeydd incwm y gellid eu realeiddio dim ond trwy gael gwared ag asedau sefydlog a ddelir at ddefnydd yr elusen.

Mae **cronfeydd incwm** yn adnoddau sy'n dod i mewn ac sydd ar gael i'r elusen ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ymddiriedolwyr eu defnyddio i hybu ei dibenion elusennol o fewn cyfnod rhesymol o'u derbyn (mae ymarfer pwer cronni yn briodol yn cael ei ystyried yn ddefnydd o'r fath).

Mae **cronfeydd anghyfyngedig (gan gynnwys cronfeydd dynodedig)** yn dreuliadwy yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr i hybu amcanion yr elusen. Os yw rhan o gronfa anghyfyngedig wedi'i neilltuo ar gyfer prosiect arbennig gall gael ei dynodi fel cronfa ar wahân, ond mae pwrpas gweinyddol i'r dynodiad yn unig ac nid yw'n cyfyngu yn gyfreithiol ar ddisgresiwn yr ymddiriedolwyr i ddefnyddio'r gronfa.

Mae **cronfeydd cyfyngedig** yn gronfeydd sy'n amodol ar ymddiriedolaethau penodol, a all gael eu datgan gan y rhoddwr(wyr) neu gyda'u hawdurdod (e.e. mewn apêl gyhoeddus) neu eu creu trwy'r broses gyfreithiol, ond sydd wedi'u cynnwys o hyd o fewn amcanion ehangach yr elusen. Gall cronfeydd cyfyngedig fod yn gronfeydd incwm cyfyngedig, sy'n dreuliadwy yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr i hybu rhyw agwedd(au) arbennig ar amcanion yr elusen. Neu gallant fod yn gronfeydd cyfalaf (h.y. gwaddoliad), lle mae'n ofynnol i fuddsoddi'r asedau, neu eu cadw at ddefnydd gwirioneddol, yn hytrach na'u dihysbyddu.

Cronfeydd gwaddoliad. Gelwir cronfa waddoliad lle nad oes pwer i droi'r cyfalaf yn incwm yn **gronfa gwaddoliad parhaol**, y mae'n rhaid ei dal am gyfnod amhenodol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r syniad hwn o 'barhauster' yn golygu o anghenraid nad oes modd i'r asedau a ddelir yn y gronfa waddoliad gael eu cyfnewid (er mewn rhai achosion bydd yr ymddiriedolaethau yn ei gwneud hi'n ofynnol i gadw ased penodol ar gyfer defnydd gwirioneddol e.e. adeilad hanesyddol), ac nid yw'n golygu ychwaith nad oes modd iddynt ddibrisio neu fod yn golled. Ond mae'n golygu nad oes modd defnyddio'r gronfa gwaddoliad parhaol fel pe bai'n incwm (h.y. i wneud taliadau neu roi grantiau i eraill).

Mae'n bosib bod gan ymddiriedolwyr y pwer i droi cronfeydd gwaddoliad yn incwm treuliadwy; gelwir cronfeydd o'r fath yn **waddoliadau treuliadwy**. (Mae modd gwahaniaethu rhwng gwaddoliad treuliadwy ac 'incwm' trwy absenoldeb dyletswydd bositif ar ran yr ymddiriedolwyr i'w ddefnyddio at ddibenion yr elusen, oni bai a hyd nes bod y pwer hwn i droi'n 'incwm' yn cael ei ymarfer). Os yw pwer o'r fath yn cael ei ymarfer mae'r cronfeydd wrth gefn perthnasol yn troi'n incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn dibynnu a yw'r ymddiriedolaethau yn caniatáu gwariant ar gyfer unrhyw un o ddibenion yr elusen, neu ar gyfer dibenion penodol yn unig.

Defnyddir **rhaid** i gyfeirio at y camau y mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr, neu eu hasiantau neu eu gweithwyr eu cymryd yn ôl y gyfraith.

Defnyddir **dylai** i awgrymu camau y teimlwn sy'n arfer dda ac y disgwyliwn i ymddiriedolwyr eu cymryd.

Atodiad C - Cyngor a Gwybodaeth

Trefnir cyngor a gwybodaeth y Comisiwn Elusennau i elusennau bach yn y ffyrdd canlynol:

Y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr

- ***Ar gyfer elusennau bach yn Lloegr***

Uned Elusennau Bach
2ail Lawr
20 Kings Parade
Queens Dock
Lerpwl L3 4DQ

- ***Ar gyfer elusennau bach yng Nghymru a'r rheiny a weithredir gan y Lluoedd Arfog***

Woodfield House
Tangier
Taunton
Gwlad yr Haf
TA1 4BL

Ffôn: 0870 3330123
Minicom: 08703330125
E-bost: enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Gall cyhoeddiadau canlynol y Comisiwn Elusennau fod yn ddefnyddiol:

Cyfrifon Elusennau 2001 Y Fframwaith	(CC61)
Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau	(CC19)
Cronfeydd Wrth Gefn Incwm Elusennau	(OG43)
Elusennau Bach: Egwyddorion Polisi'r Comisiwn	(OG 200)

I edrych ar y rhestr lawn o adnoddau a'r llyfryddiaeth sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn edrychwch ar Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau (RS3).